# RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Hybrid Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd Ddydd Iau, 26 Hydref 2023

**Presennol**: Cynghorydd Margaret M Roberts – Cadeirydd
Cynghorydd Glyn Haynes – Is-gadeirydd

Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Aled M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, John Ifan Jones, Jackie Lewis, Llinos Medi, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Non Dafydd, Dyfed Wyn Jones, R Ll Jones, Euryn Morris, Derek Owen a Dylan Rees

**Hefyd yn Bresennol:** Mr Gordon Warren – Cynghorydd Tref – Aelod o Banel Dethol y Pwyllgor Safonau (mewn perthynas ag Eitem 6)

(2.00 o'r gloch yp - 3.20 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2023 yn gywir. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2. Datganiad o ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4. Rhybudd o Gynnig yn Unol Â Rheol 4.1.13 .1 Y Cyfansoddiad** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Bu'r cyfarfod gytuno i'r gwelliant a cafodd y Rhybudd o Gynigiad ei gefnogi'n unfrydol. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5. Cyflwyno Deisebau** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim wedi eu derbyn. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6. Penodi Aelod Annibynnol Cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau fel a ganlyn:-**<br><br>• **Penodi Mr Trefor Owen yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, i ddod i rym yn syth;**<br>• **Petai sedd wag achlysurol am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi'n awtomatig Mr Brace Griffiths i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei benodi; a**<br>• **Petai ail sedd wag achlysurol am aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, neu os na fyddai Mr Brace Griffiths ar gael, penodi'n awtomatig Mr David Abbott i'r rôl heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod bob tro bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei benodi.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7. Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2022/23** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**<br><br>• **Nodi fod y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau dros dro tan fydd yr archwiliad o Ddatganiad y Cyfrifon 2022/23 wedi eu cwblhau ac wedi ei lofnodi; bydd unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sy'n cael eu cynnwys yr yr adroddiad yn cael eu hadrodd fel bo'n briodol.**<br>• **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2022/23 yn yr adroddiad.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8. Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2022/23.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9. Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol 2022/23** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol i gytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad / Lleisiant 2022/23 a'i fabwysiadu fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10. Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus 2023-28** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**<br><br>• **Mabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, a'i bod yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd a bydd yn parhau i adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma.**<br>• **Awdurdodi'r Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid mewn ymgynghoriad efo'r Deilydd Portffolio - Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer i baratoi'r ddogfen derfynol yn unol â'r ffurf gorfforaethol cyn llwytho'r ddogfen ar wefan y Cyngor.** |